*This document is available in English*

Eitem Agenda 8

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Rhagfyr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Diweddariad ar yr Archwiliad Mewnol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y gwaith a wnaed gan MIAA, darparwyr archwiliad mewnol yr Awdurdod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Penodwyd MIAA ym mis Mehefin 2023 i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Awdurdod.

3 Mae'r adroddiad sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yn darparu trosolwg o'r gwaith a wnaed hyd at 30 Tachwedd 2023 a'r gwaith y bwriedir ei wneud am weddill y flwyddyn ariannol.

**ARGYMHELLION**

4 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i. Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA hyd at 30 Tachwedd 2023 ac yn nodi'r adolygiadau y bwriedir eu cynnal am weddill y flwyddyn ariannol.

**CEFNDIR**

5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

6 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, y mae'n rhaid adrodd ar ei ganfyddiadau i Aelodau'r Awdurdod. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad o Reolaeth Fewnol yn flynyddol.

7 Penodwyd MIAA gan yr Awdurdod fel ei archwilydd mewnol yng nghyfarfod 18 Mehefin 2023 y Pwyllgor Archwilio. Cymeradwywyd y Cynllun Archwilio gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2023.

**GWYBODAETH**

8 Mae’r adroddiad sydd wedi’i gynnwys yn Atodiad 1 yn darparu trosolwg o’r gwaith a wnaed hyd at 30 Tachwedd 2023. Mae hwn yn cadarnhau bod yr adolygiad o drefniadau’r Awdurdod ar gyfer rheoli’r gyflogres a rheoli absenoldeb wedi ei gwblhau. Mae’r system gyflogres yn system ariannol graidd ac mae trafodiadau yn cyfrif am dros 70% o wariant. Adroddir ar wahân ar yr adroddiad archwilio manwl.

9 Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu bod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). Mae MIAA wedi darparu cymorth wrth adolygu paru data posibl er mwyn rhoi sicrwydd ar drefniadau creiddiol yr Awdurdod.

10 Bydd gwaith MIAA hefyd yn canolbwyntio ar feysydd risg eraill gan gynnwys trefniadau’r Awdurdod ar gyfer rheoli seiberddiogelwch ac adolygiad o systemau ariannol allweddol yr Awdurdod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol sy'n cael eu rheoli'n briodol yn cefnogi cyflawni amcanion llesiant a chynaliadwyedd tymor hwy gwasanaethau. |
| Y Gyllideb | Mae sicrwydd ar fodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi’r prosesau pennu a monitro cyllideb effeithiol |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Mae’r adolygiad o systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Mae arweinydd ymgysylltu MIAA yn siarad Cymraeg a bydd adroddiadau’n destun y prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Cyflwynir y Datganiad o Sicrwydd yn unol â’r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o’r fath, ni fyddai’r Aelodau yn ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethiant corfforaethol, rheoli risg a threfniadau rheolaeth fewnol a’u gallu cysylltiedig i gyflawni eu hamcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau sylweddol a nodwyd gan yr Archwiliad Mewnol yn cael eu hystyried wrth baratoi’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |